

Darganfod planhigion gwyllt



NODYN CYNGHORI

Darganfod planhigion gwyllt

Daffodil gwyllt (Narcissus pseudonarcissus). Caiff llawer o wahanol fathau garddwrol o Narcissi eu plannu mewn gerddi.

Er gwaetha'r newidiadau mawr a welwyd mewn defnydd tir dros yr hanner can mlynedd diwethaf mae digonedd o gyfleoedd ar gael o hyd i fwynhau planhigion gwyllt yng nghefn gwlad. Yn y daflen hon fe gewch rai awgrymiadau ynghylch sut i fynd ati.

Rydym yn dueddol o gymryd planhigion yn ganiataol yn rhan o'r dirwedd a bywyd bob dydd, ac yn aml nid ydym yn sylweddoli eu bod yn hanfodol ar gyfer darparu bwyd, meddyginiaeth, brethyn, deunyddiau adeiladu a llawer o bethau eraill.

Mae tua 1,500 rhywogaeth o blanhigion gwyllt brodorol i'w cael yn Ynysoedd Prydain ac Iwerddon gan gynnwys coed, llwyni, mathau o laswellt, hesg, brwyn, rhedyn, marchrawn a blodau, (ond heb gynnwys mwsoglau, cennau ac algâu).

 **Dolydd**
Byw


Darganfod planhigion gwyllt

Brodorol neu anfrodorol?

Rhywogaeth frodorol yw rhywogaeth sydd wedi hen ennill ei phlwyf (sydd wedi bodoli ers dros ddwy fil o flynyddoedd) ar Ynysoedd Prydain, nad yw wedi'i chyflwyno'n ddiweddar. Planhigion brodorol yw planhigion sy'n etifeddu nodweddion eu hynafiaid heb unrhyw ymyrraeth trwy waith bridio artiffisial.

Mae rhywogaethau anfrodorol (rhai wedi'u cyflwyno) yn tyfu yng nghefn gwlad hefyd.

Os ydynt yn dechrau tyfu y tu allan i ffiniau'r ardd gall rhai rhywogaethau anfrodorol megis y Rhododendron, y Llawryf a Chanclwm Japan dyfu i'r fath graddau fel eu bod yn llethu llystyfiant naturiol, ac mae hynny'n niweidio bywyd gwyllt brodorol.




Rhododendron yng nghefn gwlad Eryri

Llun: Awdurdad Parc Cenedlaethol Eryri



Clychau'r-gog gwyllt
(*Hyacinthoides non-scriptus*)


Llun: Peter Wakely/English Nature



Yn wahanol i Glychau'r-gog Sbaenaidd a Chlychau'r-gog croesryw, mae gan Glychau'r-gog gwyllt, sy'n rhywogaeth frodorol, ddail cul a choesyn lliw, pendrwm, ac mae arogl cryf i'r blodau, sy'n tyfu ar un ochr i'r coesyn.

Gweld y gwahaniaeth!

Mae llawer o rywogaethau gwyllt megis clychau'r gog a'r daffodil wedi'u meithrin er mwyn datblygu mathau ar gyfer yr ardd. Yn aml, mae'r rhain yn gallu bridio gyda'u perthnasau gwyllt. Ni ddylid byth plannu'r rhain na phlanhigion gardd eraill yng nghefn gwlad.



Darganfod planhigion gwyllt

Planhigion gwahanol mewn mannau gwahanol

Yn aml, mae gan rywogaethau unigol batrymau dosbarthiad gwahanol. Er enghraifft:

- ☼ efallai na fyddant yn tyfu ar ynysoedd sy'n bell o'r lan
- ☼ efallai mai dim ond ar ryw uchder neu ledred penodol y byddant yn tyfu
- ☼ efallai mai dim ond mewn math arbennig o bridd neu gynefin y byddant yn tyfu.

Mae'r rhesymau am hyn yn amrywio, ond maent yn cynnwys gwahaniaethau hinsoddol ac amgylcheddol, neu pa mor hir wedi'r oes iâ ddiwethaf y gwnaeth y planhigyn gytrefu. Mae llawer o rywogaethau'n gweddu'n arbennig i fathau arbennig o gynefin, megis mannau cysgodol, copaon oer mynyddoedd, dŵr, tir wedi'i drin, priddoedd calchaid neu wlyptiroedd asidig corslyd.

Dosbarthiad rhai briallu brodorol

- 1 **Mae Briallu Tal** (*Primula elatior*) yn frodorol i goedwigoedd yn nwyrain Lloegr.
- 2 Dim ond ar laswelltir arfordirol yng ngogledd Yr Alban y mae **Briallu'r Alban** (*Primula scotica*) yn tyfu.
- 3 **Mae Briallu Blodiog** (*Primula farinosa*) wedi'u cyfyngu i laswelltiroedd yr ucheldir.
- 4 **Mae Briallu Mair** (*Primula veris*) yn tyfu ar draws llawer o Ynysoedd Prydain ac Iwerddon. Fodd bynnag, maent wedi diflannu o sawl man oherwydd bod yr hen ddolydd a phorfeydd lle maent yn tyfu wedi cael eu haredig, eu gwrteithio neu eu chwistrellu â chwynladdwr.



3

Llun: Derek Ratcliffe/English Nature



2

Llun: Jim Asher



4

Llun: Paul Glendell/English Nature

GWYDDFID GWYLLT
Lonicera periclymenum
Mae'r planhigyn hwn yn tyfu mewn coedwigoedd a chloddiau.



Yn yr un modd â phlanhigion gardd, ni fydd planhigion gwyllt sy'n cael eu cyflwyno i fannau newydd yn goroesi, oni bai bod yr amodau'n addas. Mae pridd, hinsawdd, patrymedd dŵr a'r modd y caiff y safle ei reoli yn arbennig o bwysig. Mae'n bwysig cofio hyn wrth blannu blodau, coed a llwyni.

FFAWYDDEN EWROPEAIDD *Fagus sylvatica*

Mae'r goeden hon yn frodorol i goetiroedd lle ceir priddoedd sy'n draenio'n dda ar draws rhannau o dde Lloegr a de-orllewin Cymru. Mae llawer o goed ffawydd wedi'u plannu ar draws Prydain ac Iwerddon.

Darganfod planhigion gwyllt

Rhywun i ddangos i chi

Mae'n llawer haws dysgu am flodau gwyllt os oes rhywun ar gael i'ch arwain. Ystyriwch fynd ar daith dywysedig wedi'i threfnu gan eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol. Mae sefydliadau eraill, megis *Plantlife*, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Gwarchod Glöynnod Byw yn berchen ar warchodfeydd natur hefyd, ac maent yn trefnu teithiau cerdded tywysedig.



Llyfr da



Er mwyn darganfod mwy am blanhigion gwyllt, bydd angen llyfr adnabod da arnoch. Bydd llyfr da'n cynnwys lluniau lliw manwl, disgrifiad a gwybodaeth ynghylch adegau blodeuo a dosbarthiad y rhywogaeth. Edrychwch trwy'r llyfr cymaint ag y gallwch, er mwyn dod yn gyfarwydd â'r ffordd y mae wedi'i drefnu, a chofiwch fynd ag ef gyda chi i ble bynnag yr ewch.

Llyfrau sy'n cael eu hargymell

Helpwch *Flora locale* trwy brynu llyfrau o Amazon ar www.buy.at/wildflowers. Mae siartiau plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes yn rhoi cyflwyniad syml a lliwgar i blanhigion a chynefinoedd, ac maent yn ddelfrydol i rywun sy'n dechrau arni. Gweler hefyd:

- ✿ *The Wild Flower Key*. Francis Rose.
- ✿ *Wild Flowers of Britain and Ireland*. Blamey, Fitter a Fitter.
- ✿ *Grasses, sedges, rushes and ferns of Britain and Northern Europe*. Fitter, Fitter a Farrer.
- ✿ *Trees of Britain and Northern Europe*. Mitchell a Wilkinson.
- ✿ *Interactive Flora of the British Isles* (DVD-ROM). Stace, van der Meijden a de Kort.
- ✿ *The New Atlas of the British and Irish Flora*. Daw CD-ROM gyda'r llyfr hwn sy'n rhoi gwybodaeth a map dosbarthiad ar gyfer pob rhywogaeth.

Cyhoeddiadau Cymraeg

- ✿ *Blodau Gwyllt Cymru ac Ynysoedd Prydain*. John Akeroyd.
- ✿ *Llyfr Natur Iolo*. Iolo Williams a Bethan Wyn Jones.

Blodeulyfrau sirol a lleol

Mae llyfr wedi'i gyhoeddi ar flodau a phlanhigion gwyllt bron pob sir, ac maent yn cynnwys mapiau sy'n dangos dosbarthiad planhigion gwyllt brodorol mewn ardaloedd lleol. Gweler www.bsbi.org.uk



Gwybodaeth bellach

- ✿ Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Lleol: www.wildlifetrusts.org.uk
- ✿ Plantlife International: www.plantlife.org.uk
- ✿ Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain: www.bsbi.org.uk
- ✿ Cymdeithas Wild Flower: www.wildflowersociety.com

Adnoddau ar y we

- ✿ Cronfa ddata o blanhigion yn ôl côd post: www.nhm.ac.uk/science/projects/fff/
- ✿ Allwedd adnabod planhigion gwyllt ar y we: www.botanicalkeys.co.uk/flora/
- ✿ Canllaw maes i blanhigion tir â: www.arableplants.fieldguide.co.uk
- ✿ Gwybodaeth a lluniau lliw o goed a llwyni: www.british-trees.com
- ✿ Allwedd adnabod coed ar y we: www.saps-plantsci.cam.ac.uk/trees/home.htmlWeb
- ✿ Lluniau o blanhigion gwyllt a bywyd gwyllt arall: www.biomages.co.uk
- ✿ Tudalen gwe The Wild Flower Page: www.habitat.org.uk/wildflwr.htm

Penwythnosau a chyrsiau ar flodau gwyllt

- ✿ Canolfan Kingcombe: www.kingcombe-centre.demon.co.uk
- ✿ Y Cyngor Astudiaethau Maes: www.field-studies-council.org
- ✿ Shared Earth Trust: www.shared-earth-trust.org.uk
- ✿ Plas Tan y Bwlch: www.plastanybwlch.com
- ✿ Moelyci: www.moelyci.org

Os hoffech gael rhagor o nodiadau cynghori, astudiaethau achos, canllawiau ar gyfer prosiectau plannu yng nghefn gwlad a gwybodaeth am gyfluoedd hyfforddi a chyflenwyr blodau a phlanhigion brodorol, ewch i www.floralocale.org

Pob hwyl â'r chwilota!



Flora Locale, Postern Hill Lodge, Marlborough, Wiltshire SN8 4ND

Ffôn: 01672 515723 E-bost: info@floralocale.org Gwefan: www.floralocale.org

Elusen genedlaethol yw *Flora locale* a sefydlwyd er mwyn hybu defnydd doeth o flodau a phlanhigion brodorol mewn prosiectau adfer cefn gwlad a phrosiectau cadwraeth eraill sy'n cynnwys gwaith plannu

Mae *Flora locale* yn gwmni a gofrestrwyd yn y DU (rhif 3539595), ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (rhif 1071212) ac yn yr Alban (rhif SC039001). Cyllidwyd y Nodyn Cynghori hwn gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad Esmée Fairbairn. © *Flora locale* 2009. Cewch atgynhyrchu'r nodyn hwn fel y mynnoch, ond ni chewch ei gyhoeddi na'i ddefnyddio er elw ariannol heb ganiatâd ymlaen llaw gan *Flora locale*.

